



Cyngor Bro Morgannwg

Polisi Gostyngiadau Disgresiynol y Dreth Gyngor

Is-adran	Cynnwys	Tudalen
1	Cyflwyniad	1
2	Cefndir Cyfreithiol	2
3	Canllawiau Cymhwysedd	2
4	Hawlio Gostyngiad Disgresiynol y Dreth Gyngor	5
5	Ystyried ceisiadau	5
6	Hysbysu	5
7	Apeliadau	5

Adran 1 - Cyflwyniad

- 1.1 Mabwysiadwyd y polisi hwn i roi cymorth i drethdalwyr y Dreth Gyngor os ceir tystiolaeth glir bod gan unigolyn neu grŵp o unigolion amgylchiadau eithriadol nad ydynt yn ganlyniad i esgeulustod ar eu rhan.
- 1.2 Bydd y polisi'n cael ei weinyddu gan y Cyngor a bydd holl drethdalwyr y Dreth Gyngor yn cael gwybod am y polisi drwy'r nodiadau esboniadol sydd ar gael ar wefan y Cyngor. Darperir y cyswllt gwe priodol gyda phob bil y dreth gyngor a gyhoeddir.
- 1.3 Mae'r polisi hwn yn cyfeirio'n benodol at y grant Gostyngiadau Disgresiynol y Dreth Gyngor yn unol â'r darpariaethau a gynhwysir yn adran 13A (1) (c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.
- 1.4 Cynigir bod Gostyngiadau Disgresiynol y Dreth Gyngor yn gymwys mewn amgylchiadau eithriadol, megis sefyllfaoedd argyfwng a chaledi ariannol eithriadol ac y bydd unrhyw gais o dan y polisi hwn yn cael ei ystyried o'r 1^{af} Ebrill 2019.
- 1.5 Bydd ceisiadau sy'n cael eu cyflwyno o ganlyniad i bandemig COVID19 yn cael eu hystyried o dan y categori '**Caledi ariannol eithriadol**'.

Adran 2 - Cefndir Cyfreithiol

2.1 Dan Adran 13A (1) (c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, mae gan y Cyngor y pŵer i ostwng atebolrwydd ar gyfer y Dreth Gyngor o ran achosion unigolion neu ddsbarth(iadau) o achosion y gellir eu pennu, a phan ystyrir eu bod yn briodol gwneud hynny.

Mae crynodeb o Adran 13A (1) (c) wedi'i nodi isod:

- Pan fo person yn atebol i dalu treth gyngor mewn perthynas ag unrhyw annedd trethadwy, gall yr awdurdod bilio ar gyfer yr ardal y lleolir yr annedd ynddi leihau'r swm y mae'n atebol i'w dalu i'r fath raddau ag y gwêl yn dda.
 - Mae'r pŵer dan isadran (1) yn cynnwys y pŵer i ostwng swm i ddim.
 - Caniateir arfer y pŵer o dan isadran (1) mewn perthynas ag achosion penodol neu drwy benderfynu ar ddsbarth achos pan fydd atebolrwydd yn cael ei leihau i raddau a ddarperir gan y penderfyniad.
- 2.2 Mae'n rhaid i gost Gostyngiadau Disgresiynol y Dreth Gyngor dan Adran 13A (1) (c) gael ei ariannu o gyfanswm yr incwm a grëir gan y Dreth Gyngor.
- 2.3 O ganlyniad i hyn, bydd y Cyngor ond yn ystyried defnyddio ei bwerau i ostwng atebolrwydd i'r Dreth Gyngor ar gyfer unrhyw un sy'n talu'r Dreth Gyngor neu unrhyw un o grŵp o bobl sy'n talu, o dan amgylchiadau eithriadol.
- 2.4 Caiff pob achos ei benderfynu yn ôl ei deilyngdod ei hun ar sail y ffurflen gais a'r wybodaeth ategol.

Adran 3 - Canllawiau Cymhwysedd

3.1 Mae Adran 13A (1) (c) yn caniatáu disgresiwn i'r Cyngor roi cymorth i drethdalwyr y Dreth Gyngor os nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn darparu disgownt, eithriad neu ostyngiad, neu o dan y fath amgylchiadau pan fo'r Cyngor yn teimlo bod lefel y disgownt neu'r gostyngiad yn annigonol o ystyried yr amgylchiadau eithriadol dan sylw. Wrth benderfynu a ddylid rhoi dyfarniad dewisol ai peidio, bydd y Cyngor yn ystyried pob cais yn ôl ei rinweddau.

Bydd unrhyw benderfyniad a wneir yn cael ei wneud heb gyfeirio at unrhyw ystyriaethau cyllidebol er gwaethaf y ffaith bod yn rhaid cydbwyso unrhyw ddyfarniadau yn erbyn anghenion trethdalwyr lleol a fydd, yn y pen draw, yn talu am ostyngiad mewn incwm o'r Dreth Gyngor. Yn yr un modd, bydd cyfnod unrhyw rwymedigaeth o ran gostyngiadau'n cael ei ystyried ar y cyd ag amgylchiadau trethdalwr y Dreth Gyngor. At ddibenion gweinyddu'r cynllun, bydd y Cyngor yn defnyddio ei bwerau dewisol er mwyn caniatáu gostyngiad yn y Dreth Gyngor o fewn unrhyw un o'r categorïau canlynol:-

a) Caledi Ariannol Eithriadol

Yn unol ag Adran 13A (1) (b) o'r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, mae gan y Cyngor hwn gynllun Gostyngiadau Disgresiynol y Dreth Gyngor sy'n darparu cymorth, drwy ostyngiad, i'r rheini y mae angen cymorth arnynt i dalu eu rhwymedigaeth treth gyngor. Mae'r cynllun wedi'i gynllunio i ystyried sefyllfa ariannol ac amgylchiadau penodol unigolion, gan gynnwys cyfansoddiad eu haelwyd.

Derbynnir ceisiadau o hyd o dan y Polisi Gostyngiadau Disgresiynol y Dreth Gyngor i bobl sydd wedi cymhwyso i gael cymorth o dan y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ond sy'n parhau i fod mewn caledi ariannol eithriadol. Yn y lle cyntaf, byddai'r Cyngor yn disgwyl i drethdalwyr ganfod a fydd unrhyw ostyngiadau, eithriadau neu gymhwysedd i gael gostyngiad yn y Dreth Gyngor o dan gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor yn berthnasol cyn i gais gael ei ystyried.

Rhaid i'r cais am Ostyngiadau Disgresiynol y Dreth Gyngor gael ei wneud gan y person sy'n atebol i dalu'r Dreth Gyngor neu ei eiriolwr/benodai (gyda chydysyniad ysgrifenedig) sy'n rhoi manylion y wybodaeth sy'n ofynnol yn y cais.

Fel rhan o'r broses ymgeisio dan Bolisi Gostyngiad Disgresiynol y Dreth Gyngor, rhaid i bob ymgeisydd gwblhau **pob un** o'r canlynol:

- Rhaid cyflwyno'r ffurflen gais briodol ar gyfer Gostyngiad Disgresiynol y Dreth Gyngor, ar ôl cwblhau pob adran berthnasol.
- Rhaid rhoi manylion pob meddiannydd arall yn y cais.
- Rhaid i ymgeiswyr roi manylion incwm a gwariant llawn gyda thystiolaeth briodol i gefnogi'r wybodaeth a geir yn eu ceisiadau.
- Rhaid i'r trethdalwr gadarnhau nad oes mynediad ganddo/ganddi i asedau a allai gael eu troi'n arian a'u defnyddio i dalu atebolrwydd y Dreth Gyngor.

Bydd y ffactorau canlynol yn cael eu hystyried wrth asesu'r cais o dan ran (A) y polisi hwn:-

- Bydd y Cyngor a'r ymgeisydd yn ystyried opsiynau talu eraill, megis trefniadau tâl gohiriedig a gostyngiadau mewn gwariant nad yw'n hanfodol i gyflawni ei atebolrwydd dyledus.
- Amgylchiadau ariannol presennol.
- Amgylchiadau'r ymgeisydd pan godwyd atebolrwydd am y Dreth Gyngor.
- Pennu pa gamau gweithredu mae'r ymgeisydd wedi'u cymryd i liniaru'r sefyllfa.
- Ystyried dulliau eraill o gymorth a allai fod ar gael i'r ymgeisydd, megis gwneud cais am Daliad Tai yn ôl Disgresiwn er mwyn talu am gostau rhent a manteisio i'r eithaf ar fudd-daliadau gwladol eraill lle bo'n berthnasol.

b) Argyfwng (e.e. Tân neu Lifogydd)

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau am gymorth gan drethdalwyr y Dreth Gyngor sydd, heb unrhyw fai arnynt eu hunain, wedi profi argyfwng neu ddigwyddiad sydd wedi gwneud yr annedd yn amhreswyladwy, e.e. o ganlyniad i dân neu lifogydd, lle maent yn dal i fod yn atebol i dalu'r Dreth Gyngor ac nad oes ganddynt hawl i gael iawndal ac nad oes modd iddynt droi at unrhyw eithriadau statudol.

Rhaid gwneud pob cais o'r fath yn ysgrifenedig gan fanylu ar union amgylchiadau unrhyw ostyngiad yn y rhwymedigaeth sy'n ofynnol ac yn nodi pryd y disgwylir i'r sefyllfa gael ei datrys.

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau fesul achos mewn ymgynghoriad â gwasanaethau neu sefydliadau eraill fel sy'n briodol. Bydd unrhyw ostyngiad yn cael ei gyflwyno lle maent yn parhau'n atebol i dalu'r Dreth Gyngor pan nad oes ganddynt fodd i gael unrhyw eithriadau statudol na gostyngiadau neu lle nad yw unrhyw bolisi yswiriant yn cynnwys y fath argyfwng neu ddigwyddiad.

c) Amgylchiadau Eraill

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau gan drethdalwyr y Dreth Gyngor am ostyngiad yn eu hatebolrwydd yn seiliedig ar amgylchiadau eithriadol eraill na sonnir amdanynt yn benodol yn y polisi hwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Cyngor fod o'r farn bod yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'r cais yn haeddu gostyngiad pellach yn eu hatebolrwydd am y Dreth Gyngor, gan ystyried yr effaith ar drethdalwyr eraill Treth Gyngor y Cyngor.

Ni roddir unrhyw ostyngiad mewn atebolrwydd lle y gellid rhoi eithriad neu ddisgownt statudol, neu lle y byddai'n gwrthdaro ag unrhyw benderfyniad, blaenoriaeth graidd neu amcan y Cyngor.

3.2 Newidiadau mewn Amgylchiadau

Caiff y Cyngor ddiwygio unrhyw ostyngiad yn ôl disgrisiwn a ddarperir o dan y polisi hwn pan fo amgylchiadau'r ymgeisydd wedi newid.

Mae'r trethdalwr yn cytuno y bydd yn hysbysu'r Cyngor ar unwaith naill ai dros y ffôn, drwy e-bost neu'n ysgrifenedig am unrhyw newidiadau yn ei amgylchiadau a allai effeithio ar yr hawliad o dan y polisi hwn. Gallai methu â gwneud hyn arwain at ddileu'r gostyngiad a ganiatawyd ar gyfer y flwyddyn a'r gofyniad i ad-dalu unrhyw swm sy'n ddyledus i'r Cyngor. Rhaid rhoi gwybod am bob newid yn yr amgylchiadau o fewn 21 diwrnod.

3.3 Dyfarnu a Hyd

Penderfynir ar swm y grant a hyd y dyfarniad yn ôl disgrisiwn y cyngor a gwneir hynny ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd ac amgylchiadau a rhinweddau pob cais a dderbynnir.

Fel arfer, bydd y dyfarniad yn dechrau o ddyddiad y cais a dim ond os gall y trethdalwr ddangos achos da pam na wnaeth gais ar yr adeg berthnasol y bydd yn cael ei ôl-ddyddio.

Bydd unrhyw ddyfarniad a wneir ar sail "untro" a bydd naill ai am ran o'r tâl neu'r tâl llawn. Ni fydd y dyfarniad yn parhau ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, oni bai bod cais pellach yn dod i law ac yn cael ei gymeradwyo.

Caiff unrhyw ddyfarniadau a wneir eu credydu'n uniongyrchol i gyfrif Treth Gyngor yr unigolyn neu'r unigolion dan sylw, gan leihau swm y Dreth Gyngor sy'n daladwy.

3.4 Egwyddorion y Polisi

Bydd pob cais yn cael ei drin yn ôl ei rinweddau ei hun er y bydd yr egwyddorion canlynol yn cael eu defnyddio ym mhob achos:

- Rhaid bod yna dystiolaeth glir o'r amgylchiadau eithriadol hynny, nad ydynt yn deillio o esgeulustod ar ran yr ymgeisydd.
- Mae'n rhaid bod yr ymgeisydd eisoes wedi hawlio unrhyw ostyngiadau eraill o'r tâl Treth Gyngor a all fod yn berthnasol.
- Rhaid bod trethdalwr y Dreth Gyngor wedi cymryd camau rhesymol i ddatrys y sefyllfa cyn gwneud y cais.
- Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu unrhyw wybodaeth briodol y mae'r Cyngor yn gofyn amdani mewn perthynas â'r hawliad o fewn 28 diwrnod ar ôl cael y cais gan y Cyngor.
- Nid oes gan drethdalwr y Dreth Gyngor fynediad i asedau eraill y gellid eu defnyddio i dalu'r tâl.

Adran 4 - Hawlio Gostyngiad Disgresiynol y Dreth Gyngor

- 4.1 Gellir gwneud hawliadau naill ai'n ysgrifenedig gan yr ymgeisydd dan sylw neu gan ei eiriolwr neu benodai gyda'i ganiatâd ysgrifenedig.
- 4.2 Rhaid i'r cais gael ei wneud yn brydlon a bod yn berthnasol i'r flwyddyn ariannol gyfredol, oni gall trethdalwr y Dreth Gyngor ddangos achos da pam na wnaeth gais ar yr adeg berthnasol. Rhaid i'r cais cael eu hategu gan yr holl dystiolaeth briodol. Yn dibynnu ar fanylion y cais gall y Cyngor wedyn ysgrifennu a gofyn am wybodaeth atodol y mae'n rhaid ei darparu o fewn 28 diwrnod.
- 4.3 Dylid naill ai wneud ceisiadau drwy'r post neu e-bost i counciltax@valeofglamorgan.gov.uk

Adran 5 - Penderfynu ar Geisiadau

- 5.1 Penderfynir ar yr hawliadau/dyfarndaliadau a wneir ar sail argymhelliad Gwasanaeth y Trysorlys.
- 5.2 Drwy bwerau dirprwyedig, bydd uwch swyddogion o fewn Gwasanaeth y Trysorlys yn ystyried unrhyw geisiadau a dderbynnir.
- 5.3 Bydd penderfyniadau ynghylch apeliadau yn erbyn penderfyniad cychwynnol Gwasanaeth y Trysorlys yn cael eu gwneud gan y Pennaeth Cyllid a'r Arweinydd.

Adran 6 - Hysbysu

- 6.1 Ar ôl derbyn yr holl wybodaeth briodol, bydd y Cyngor yn gwneud penderfyniad o fewn 28 diwrnod neu cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl ar ôl hynny.
- 6.2 Yna, bydd y Cyngor yn ysgrifennu at yr ymgeisydd i roi gwybod iddo naill ai'r dyfarniad sydd i'w wneud neu i esbonio iddo pam nad yw'n gymwys.

Adran 7 - Apeliadau

- 7.1 Bydd y Cyngor yn derbyn cais ysgrifenedig ymgeisydd am adolygiad pellach o'i benderfyniad ar yr amod ei fod yn cael ei dderbyn o fewn 28 diwrnod i'r penderfyniad gwreiddiol, lle bydd y cyfle ar gael i ddarparu gwybodaeth ychwanegol lle bo'n briodol.
- 7.2 Os caiff y penderfyniad ei herio gan yr ymgeisydd yna caiff y cais ei ystyried ymhellach gan y Pennaeth Cyllid a'r Arweinydd a chyhoeddir ateb o fewn 2 fis yn hysbysu'r ymgeisydd dan sylw o'r penderfyniad.
- 7.3 Os na chaiff y penderfyniad cychwynnol ei wrthdroi bydd ffurflen apêl yn cael ei hamgáu gyda'r llythyr penderfyniad sy'n caniatáu i'r ymgeisydd wneud apêl bellach i Dribiwnlys Prisio Cymru sy'n annibynnol o'r Cyngor. Os bydd yr ymgeisydd yn penderfynu bwrw ymlaen â'r apêl yna rhaid cwblhau'r ffurflen a'i dychwelyd i'r Tribiwnlys Prisio o fewn 2 fis i'r llythyr penderfyniad terfynol.

DIWEDD

Rhif y Fersiwn	003
Dyddiad Cyhoeddi'r Ddogfen	Mehfin 2022
Cymeradwywyd gan	Penderfyniad Gweithrediaeth
Dyddiad Cymeradwyo	Mehfin 2022
Perchennog y Ddogfen	Matt Bowmer
Dyddiad Adolygu	Ebrill 2024